- Costau cyfreithiol a'r costau eraill sy'n gysylltiedig â gwerthu a phrynu eiddo (e.e. Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC), ffioedd chwiliadau, costau dilys gan y gymdeithas adeiladu, ffioedd trefnu morgais a syrfewyr). Mae'r darparwr gwasanaeth adleoli wedi penodi panel o gyflenwyr proffesiynol. Fodd bynnag, os hoffech ddefnyddio eich cyflenwyr eich hun, bydd cyfraniad y BBC yn cael ei gyfyngu i'r cyfraddau a delir i'r panel a benodwyd gan y darparwr gwasanaeth adleoli.
- Arolwg Prynu Tŷ gan syrfewr ar y panel a benodwyd. Dim ond os argymhellir hynny yn yr Arolwg Prynu Tŷ y bydd Arolwg Llawn o'r Adeilad yn cael ei awdurdodi.
- Treth Stamp (Treth Dir y Dreth Stamp) hyd at uchafswm gwerth y dreth stamp gyfatebol sy'n daladwy ar bris gwerthu eich cartref presennol (e.e. os byddwch yn gwerthu eich cartref presennol am £200,000, byddai gwerth y dreth stamp gyfatebol yn £1,500*. Felly byddai'r gefnogaeth ar gyfer treth stamp yn cael ei chyfyngu i uchafswm o £1,500.).
*Cyfraddau Treth Dir y Dreth Stamp fel yr oeddent ar 17 Mawrth 2017.
- Telir costau rhesymol ar gyfer llety dros dro (gan gynnwys ffioedd asiant gosod tai). Dylech gyfeirio at y diffiniad o'r gwasanaeth neu holi eich ymgynghorydd adleoli er mwyn cael manylion llawn.
- Costau teithio yn ôl a blaen i gartref presennol y teulu tra byddwch mewn llety dros dro yn unol â'r patrwm gwaith y cytunwyd arno â'ch Rheolwr Tîm.
- Costau dyblyg ar gyfer nwy, trydan, biliau dŵr a'r dreth gyngor tra byddwch mewn llety dros dro. Dylech wneud cais am ddisgownt ar y dreth gyngor a chyfleustodau hanfodol os yw hyn yn berthnasol (os ydych yn sengl ac nad oes gennych bartner yn byw yn eich cartref blaenorol, dim ond i gostau sefydlog y bydd hyn yn berthnasol).
- Ffioedd Asiantaeth Gwerthu Tai o hyd at 1.5%, yn ogystal â TAW, o'r pris gwerthu, ar yr amod y cytunir ar y ffi ar sail 'dim gwerthiant, dim ffi' a'i bod yn cynnwys hysbysebu.
- Gwasanaethau symud celfi gan ddefnyddio cyflenwr sydd wedi'i gymeradwyo. Os bydd arnoch eisiau defnyddio eich cyflenwr eich hun, bydd cyfraniad y BBC yn cael ei gyfyngu i'r cyfraddau a delir i'r cwmni symud celfi a benodwyd gan y darparwr gwasanaeth adleoli.
- Ni fydd y BBC yn talu costau cosb er mwyn eich rhyddhau o forgais sydd ar gyfradd benodedig neu isel oni bai bod eich benthyciwr yn eich atal rhag trosglwyddo'r morgais i'r eiddo newydd.
- Cyfraniad tuag at nwyddau'r cartref (e.e. carpedi a llenni) os ydych yn gwerthu ac yn prynu eiddo. Telir hwn ar sail derbynebaw a bydd gofyn ichi ddangos bod y nwyddau hyn

yn cael eu gadael yn rhan o werthiant eich cartref. Gweler y diffiniad o'r gwasanaeth neu siaradwch â'ch ymgynghorydd adleoli am ragor o wybodaeth.

- Unrhyw atebolrwydd treth sy'n deillio yn sgil ad-dalu treuliau a gymeradwywyd uwchlaw'r terfyn eithrio rhag treth.

Opsiwn 2: Perchennog tŷ yn cadw'i eiddo

(Cadw'r eiddo presennol yn yr hen leoliad – a'i osod ar rent. Rhentu eiddo yn y lleoliad newydd)

- Lwfans Rhagchwilio Lleoliad i ad-dalu treuliau teithio, llety a phrydau ar sail derbynebaw.
- Lwfans rhentu ar gyfer eiddo yn yr ardal newydd (gan gynnwys ffioedd asiant gosod tai). Cyfeiriwch at y diffiniad o'r gwasanaeth neu holwch eich ymgynghorydd adleoli er mwyn cael y manylion yn llawn.
- Gwasanaethau symud celfi gan ddefnyddio cyflenwr sydd wedi'i gymeradwyo. Os bydd arnoch eisiau defnyddio eich cyflenwr eich hun, bydd cyfraniad y BBC yn cael ei gyfyngu i'r cyfraddau a delir i'r cwmni symud celfi a benodwyd gan y darparwr gwasanaeth adleoli.
- Unrhyw atebolrwydd treth sy'n deillio yn sgil ad-dalu treuliau uwchlaw'r terfyn eithrio rhag treth.
- Pan fydd cyflogai yn gosod ei eiddo presennol ar rent, telir y gwahaniaeth rhwng y morgais presennol, yr incwm rhentu a geir a'r rhent yn y lleoliad newydd hyd at yr uchafswm cyfnod a nodwyd. Holwch eich ymgynghorydd adleoli am ragor o wybodaeth. Bydd gofyn cael tystiolaeth i gefnogi'r hawliad.
- Treuliau teithio er mwyn i'r 'uned deuluol' deithio i'r lleoliad newydd – yn cyfateb i un daith er mwyn cwblhau'r symud. Cânt eu had-dalu ar sail derbynebaw neu nifer y milltiroedd yn ôl y gyfradd ar y pryd. Mae hyn yn ddibynnol ar eich amgylchiadau unigol ac yn amodol ar derfynau cyllideb y cytunwyd arnynt.
- Ni fydd y BBC yn rhoi cymorth ar gyfer costau prynu yn yr ardal newydd os yw'r eiddo yn yr hen leoliad yn cael ei gadw.

Er mwyn bodloni gofynion CThEM o ran eithriadau treth, bydd gofyn i'r cyflogai roi tystiolaeth ei fod wedi symud 'prif' breswylfa'r teulu i'r lleoliad newydd. Gallai methu â darparu'r dystiolaeth hon arwain at atebolrwydd treth y gall y cyflogai orfod ei dalu. Mae'r geiriau 'perchennog tŷ' a 'perchennog eiddo' yn gyfystyr yn y ddogfen hon ac maent yn cyfeirio at berchennog cyfreithiol 'prif' breswylfa'r teulu yn unol â diffiniad CThEM, h.y. os mai eich gŵr/gwraig neu bartner yw perchennog cyfreithiol 'prif' breswylfa eich teulu, mae rheolau'r polisi hwn yn dal yn gymwys.

Opsiwn 3: Cyflogeion mewn Llety Rhent (o eiddo rhent i un arall)

Os ydych mewn llety rhent ar hyn o bryd, dyma'r treuliau fydd yn cael eu had-dalu:

- Lwfans Rhagchwilio Lleoliad i ad-dalu treuliau teithio, llety a phrydau ar sail derbynebaw.
- Costau llety dros dro yn y tymor byr; siaradwch â'ch ymgynghorydd adleoli am ragor o wybodaeth.

- Gwasanaethau symud celfi gan ddefnyddio cyflenwr sydd wedi'i gymeradwyo. Os bydd arnoch eisiau defnyddio eich cyflenwr eich hun, bydd cyfraniad y BBC yn cael ei gyfyngu i'r cyfraddau a delir i'r cwmni symud celfi a benodwyd gan y darparwr gwasanaeth adleoli.
- Ffioedd gweinyddu, ffioedd tystlythyrau a ffioedd gwirio credyd yr asiant gosod tai.
- Unrhyw atebolrwydd treth sy'n deillio yn sgil ad-dalu treuliau a gymeradwywyd uwchlaw'r terfyn eithrio rhag treth.
- Cefnogaeth ar gyfer talu blaendal ar yr eiddo rhent a roddir ar ffurf benthyciad ichi, a fydd yn cael ei dynnu o'ch tâl dros gyfnod o amser y cytunwyd arno. Yna dychwelir y blaendal yn uniongyrchol gan yr asiant gosod tai i'r cyflogai ar ddiwedd y cyfnod rhentu.
- Treuliau teithio er mwyn i'r 'uned deuluol' deithio i'r lleoliad newydd – yn cyfateb i un daith er mwyn cwblhau'r symud. Cânt eu had-dalu ar sail derbynebaw neu nifer y milltiroedd ar y gyfradd ar y pryd. Mae hyn yn ddibynnol ar eich amgylchiadau unigol ac yn amodol ar derfynau cyllideb y cytunwyd arnynt.

Bydd treuliau adleoli'n cael eu had-dalu ar sail 'tebyg am ei debyg' ac felly ni fydd cyflogeion sy'n rhentu llety yn gymwys am yr elfennau hynny o gymorth adleoli sy'n ymwneud â phrynu tŷ.

Costau Cyfreithiol yn yr Alban

Mae'r sefyllfa gyfreithiol o ran prynu a gwerthu eiddo yn yr Alban yn wahanol i'r hyn ydyw yng Nghymru a Lloegr. Cydnabyddir, pan fydd angen prynu eiddo yn yr Alban, y gall fod angen i'r cyflogai dalu costau prisio sawl gwaith cyn y bydd pryniant yn un terfynol. Bydd y BBC yn cytuno i dalu cost prisiadau angenrheidiol.

Pan fydd y BBC eisoes wedi talu am dri phrisiad, rhaid i'r cyflogai fod yn barod i drafod â'r gwasanaeth adleoli y rhesymau am y bidiau aflwyddiannus. Os bernir bod y cyflogai wedi ymddwyn heb ofal digonol yn y mater hwn, gall y BBC wrthod talu unrhyw gostau pellach.

CEFNOGAETH ADLEOLI PAN FYDD GRŴP YN SYMUD: O FEWN Y DU

Disgrifiad Telir treuliau adleoli fel y'u hamlinellir yn y polisi hwn dan amgylchiadau pan fydd penderfyniad wedi'i wneud i symud nifer o rolau, tîm neu adran/swyddogaeth i leoliad arall a bod cyflogeion mewn perygl o gael eu diswyddo. Byddwn yn cynnig cefnogaeth adleoli i alluogi cyflogeion yr effeithir arnynt i symud i rolau amgen yn un o leoliadau eraill y BBC, ar yr amod bod hyn yn briodol yn economaidd ac o safbwynt y gwaith.

Bydd cyflogeion y mae eu gwaith yn cael ei drosglwyddo yn cael cynnig pecyn o gefnogaeth ariannol ac ymarferol sydd wedi'i lunio er mwyn galluogi cynifer o gyflogeion â phosibl i fanteisio ar gyfleoedd yn y lleoliad gwaith newydd. Telir treuliau adleoli fel y'u hamlinellir yn y polisi hwn dan amgylchiadau pan fydd

cyflogeion sydd mewn perygl o gael eu diswyddo yn sicrhau eu bod yn cael eu symud i rolau amgen yn un o leoliadau eraill y BBC, ar yr amod bod hyn yn briodol yn economaidd ac o safbwynt y gwaith.

- Cymhwys** Er mwyn bod yn gymwys am gefnogaeth adleoli rhaid i'r cyflogai fod â contract parhaus mewn rôl sy'n cael ei hadleoli cyn y symud arfaethedig. Ni fydd unrhyw un sy'n cael ei recriwtio i rôl gan wybod ymlaen llaw y bydd y rôl yn symud ymhên dim yn gymwys am gefnogaeth dan y polisi hwn.
- Ymgeisio** Er mwyn gwneud cais am gefnogaeth adleoli bydd angen ichi lenwi'r Ffurflen Awdurdodi Cefnogaeth Adleoli Parhaol sydd ar gael ar y Porth AD.

Opsiynau Adleoli

Dyma brif elfennau'r pecyn adleoli:

- I'r holl gyflogeion:
 - Cymorth gan ddarparwr gwasanaeth adleoli arbenigol
 - Gwasanaethau symud celfi gan ddefnyddio cyflenwr sydd wedi'i gymeradwyo
 - Cyfraniad tuag at gost ymweliad Rhagchwilio â'r lleoliad gwaith newydd.
- I gyflogeion sy'n berchnogion tai:
 - Dewis rhwng un o ddau becyn adleoli
 - Opsiwn Cymorth i Adleoli
 - Lwfans Lleoliad Pell

Adran Un : Perchnogion Tai

Opsiynau cefnogaeth sydd ar gael i gyflogeion sy'n berchnogion tai:

3. Opsiwn Cymorth i Adleoli
4. Lwfans Lleoliad Pell

Opsiwn 1: Opsiwn Cymorth i Adleoli

Cymorth i werthu'r eiddo presennol a phrynu'r eiddo newydd:

Gellir hawlio'r costau canlynol yn ôl:

- Lwfans Rhagchwilio Lleoliad i ad-dalu treuliau teithio, llety a phrydau ar sail derbynebaw.
- Costau cyfreithiol a'r costau eraill sy'n gysylltiedig â gwerthu a phrynu eiddo (e.e. Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC), ffioedd chwiliadau, costau dilys gan y gymdeithas adeiladu, ffioedd trefnu morgais a syrfewyr). Mae'r darparwr gwasanaeth adleoli wedi penodi panel o gyflenwyr proffesiynol; os hoffech ddefnyddio eich cyflenwyr eich hun, bydd cyfraniad y BBC yn cael ei gyfyngu i'r cyfraddau a delir i'r panel a benodwyd gan y darparwr gwasanaeth adleoli.

- Arolwg Prynu Tŷ gan syrfëwr ar y panel a benodwyd. Dim ond os argymhellir hynny yn yr Arolwg Prynu Tŷ y bydd Arolwg Llawn o'r Adeilad yn cael ei awdurdodi.
- Treth Stamp (Treth Dir y Dreth Stamp) hyd at uchafswm gwerth y dreth stamp gyfatebol sy'n daladwy ar bris gwerthu eich cartref presennol (e.e. os byddwch yn gwerthu eich cartref presennol am £200,000, byddai gwerth y dreth stamp gyfatebol yn £1,500*. Felly byddai'r gefnogaeth ar gyfer treth stamp yn cael ei chyfyngu i uchafswm o £1,500.).
*Cyfraddau Treth Dir y Dreth Stamp fel yr oeddent ar 17 Mawrth 2017.
- Telir costau llety dros dro (gan gynnwys ffioedd asiant gosod tai). Dylech gyfeirio at y diffiniad o'r gwasanaeth neu holi eich ymgynghorydd adleoli er mwyn cael y manylion yn llawn.
- Costau teithio yn ôl a blaen o gartref presennol y teulu tra byddwch mewn llety dros dro yn unol â'r patrwm gwaith y cytunwyd arno â'ch Rheolwr Tîm.
- Costau dyblyg ar gyfer nwy, trydan, biliau dŵr a'r dreth gyngor tra byddwch mewn llety dros dro. Dylech wneud cais am ddisgownt ar y dreth gyngor a chyfleustodau hanfodol os yw hyn yn berthnasol (os ydych yn sengl ac nad oes gennych bartner yn byw yn eich cartref blaenorol, dim ond i gostau sefydlog y bydd hyn yn berthnasol).
- Ffioedd Asiantaeth Gwerthu Tai o hyd at 1.5%, yn ogystal â TAW, o'r pris gwerthu, ar yr amod y cytunir ar y ffi ar sail 'dim gwerthiant, dim ffi' a'i bod yn cynnwys hysbysebu.
- Gwasanaethau symud celfi gan ddefnyddio cyflenwr sydd wedi'i gymeradwyo. Os oes arnoch eisiau defnyddio eich cyflenwr eich hun, bydd cyfraniad y BBC yn cael ei chyfyngu i'r cyfraddau a delir i'r cwmni symud celfi a benodwyd gan y darparwr gwasanaeth adleoli.
- Ni fydd y BBC yn talu costau cosb er mwyn eich rhyddhau o forgais sydd ar gyfradd benodedig neu isel oni bai bod eich benthyciwr yn eich atal rhag trosglwyddo'r morgais i'r eiddo newydd.
- Cyfraniad tuag at nwyddau'r cartref (e.e. carpedi a llenni) os ydych yn gwerthu ac yn prynu eiddo. Telir hwn ar sail derbynebaw a bydd gofyn ichi ddangos bod y nwyddau hyn yn cael eu gadael yn rhan o werthiant eich cartref. Gweler y diffiniad o'r gwasanaeth neu siaradwch â'ch ymgynghorydd adleoli am ragor o wybodaeth.
- Unrhyw atebolrwydd treth sy'n deillio yn sgil ad-dalu treuliau a gymeradwywyd uwchlaw'r terfyn eithrio rhag treth.

Opsiwn 2: Lwfans Lleoliad Pell

Bwriad y Lwfans Lleoliad Pell yw caniatáu mwy o hyblygrwydd i gyflogeion o ran amseru eu symud.

Ar yr amod eich bod yn berchennog eiddo, a'ch bod yn bwriadu cadw'r eiddo hwnnw fel eich prif gartref chi/eich teulu dros dro, gallwch ddewis y Lwfans Lleoliad Pell. Dan y Lwfans Lleoliad Pell, byddwch chi a'ch Rheolwr Tîm yn cytuno ar batrwm gwaith a theithio addas. Yna defnyddir y costau disgwylid fel sail i gyfrifo lwfans misol trethadwy y gellir ei hawlio. Cyfeiriwch at y diffiniad o'r gwasanaeth neu holwch eich ymgynghorydd adleoli er mwyn cael rhagor o wybodaeth.

Os bydd eich amgylchiadau'n newid (o ran trefniadau gwaith, teithio neu lety, gan gynnwys rhannu tŷ), ac felly nad yw'r sail a ddefnyddiwyd i gyfrifo unrhyw swm y cytunwyd arno yn gywir mwyach, rhaid i chi roi gwybod i'ch Rheolwr Tîm a'ch ymgynghorydd adleoli yn ddi-oed er mwyn sicrhau y gellir rhoi gwybod i dîm y gyflogres am unrhyw newid i'r lwfans.

Rhoddir cefnogaeth i dalu blaendal ar yr eiddo rhent drwy gyfrwng benthyciad ichi, y bydd angen ei ad-dalu ar ddiwedd y cyfnod rhentu dros dro.

Yn ystod neu ar ddiwedd y cyfnod Lwfans Lleoliad Pell, gallwch ddewis adleoli, ac yna bydd cefnogaeth adleoli ar gael i gwmpasu gwariant ar dreuliau a ganiateir. Bydd y gefnogaeth hon yn gyfyngedig i'r trothwy di-dreth ar y pryd, er enghraifft:

- Lwfans Rhagchwilio Lleoliad i ad-dalu treuliau teithio, llety a phrydau ar sail derbynebaw.
- Costau cyfreithiol a'r costau eraill sy'n gysylltiedig â gwerthu a phrynu eiddo (e.e. Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC), ffioedd chwiliadau, costau dilys gan y gymdeithas adeiladu, ffioedd trefnu morgais a syrfewyr). Mae'r darparwr gwasanaeth adleoli wedi penodi panel o gyflenwyr proffesiynol; os hoffech ddefnyddio eich cyflenwyr eich hun, bydd cyfraniad y BBC yn cael ei gyfyngu i'r cyfraddau a delir i'r panel a benodwyd gan y darparwr gwasanaeth adleoli.
- Arolwg Prynu Tŷ gan syrfewr ar y rhestr o gyflenwyr a argymhellwyd. Dim ond os argymhellir hynny yn yr Arolwg Prynu Tŷ y bydd Arolwg Llawn o'r Adeilad yn cael ei awdurdodi.
- Treth Stamp (Treth Dir y Dreth Stamp) hyd at uchafswm gwerth y dreth stamp gyfatebol sy'n daladwy ar bris gwerthu eich cartref presennol (e.e. os byddwch yn gwerthu eich cartref presennol am £200,000, byddai gwerth y dreth stamp gyfatebol yn £1,500*. Felly byddai'r gefnogaeth ar gyfer treth stamp yn cael ei chyfyngu i uchafswm o £1,500.).
*Cyfraddau Treth Dir y Dreth Stamp fel yr oeddent ar 17 Mawrth 2017.
- Ffioedd Asiantaeth Gwerthu Tai o hyd at 1.5%, yn ogystal â TAW, o'r pris gwerthu, ar yr amod y cytunir ar y ffi ar sail 'dim gwerthiant, dim ffi' a'i bod yn cynnwys hysbysebu.
- Gwasanaethau symud celfi gan ddefnyddio cyflenwr sydd wedi'i gymeradwyo. Os bydd arnoch eisiau defnyddio eich cyflenwr eich hun, bydd cyfraniad y BBC yn cael ei gyfyngu i'r cyfraddau a delir i'r cwmni symud celfi a benodwyd gan y darparwr gwasanaeth adleoli.
- Ni fydd y BBC yn talu costau cosb er mwyn eich rhyddhau o forgais sydd ar gyfradd benodedig neu isel oni bai bod eich benthyciwr yn eich atal rhag trosglwyddo'r morgais i'r eiddo newydd.
- Cyfraniad tuag at nwyddau'r cartref (e.e. carpedi a llenni) os ydych yn gwerthu ac yn prynu eiddo. Telir hwn ar sail derbynebaw a bydd gofyn ichi ddangos bod y nwyddau hyn yn cael eu gadael yn rhan o werthiant eich cartref.

Os daw'r ffenestr dreth i ben yn ystod cyfnod y Lwfans Lleoliad Pell, bydd Pennaeth Treth y BBC yn cytuno ar amserlen addas ar gyfer gwerthu eich eiddo. Bydd y BBC yn talu cost unrhyw dreth a geir ar yr ad-daliad.

Adran 2: Cyflogeion mewn Llety Rhent

Os ydych mewn llety rhent ar hyn o bryd, bydd y treuliau canlynol yn cael eu had-dalu:

- Lwfans Rhagchwilio Lleoliad i ad-dalu treuliau teithio, llety a phrydau ar sail derbynebau.
- Costau llety dros dro yn y tymor byr; siaradwch â'ch ymgynghorydd adleoli am ragor o wybodaeth.
- Gwasanaethau symud celfi gan ddefnyddio cyflenwr sydd wedi'i gymeradwyo. Os bydd arnoch eisiau defnyddio eich cyflenwr eich hun, bydd cyfraniad y BBC yn cael ei gyfyngu i'r cyfraddau a delir i'r cwmni symud celfi a benodwyd gan y darparwr gwasanaeth adleoli.
- Ffioedd gweinyddu, ffioedd tystlythyrau a ffioedd gwirio credyd yr asiant gosod tai.
- Unrhyw atebolrwydd treth sy'n deillio yn sgil ad-dalu treuliau uwchlaw'r terfyn eithrio rhag treth.
- Cefnogaeth ar gyfer talu blaendal ar yr eiddo rhent, a wneir ar ffurf benthyciad ichi, a fydd yn cael ei dynnu o'ch tâl dros gyfnod o amser y cytunwyd arno. Yna dychwelir y blaendal yn uniongyrchol gan yr asiant gosod tai i'r cyflogai ar ddiwedd y cyfnod rhentu.

Bydd treuliau adleoli yn cael eu had-dalu ar sail 'tebyg am ei debyg' ac felly ni fydd cyflogeion sy'n rhentu llety yn gymwys am yr elfennau hynny o gymorth adleoli sy'n ymwneud â phrynu tŷ.

Costau Cyfreithiol yn yr Alban

Mae'r sefyllfa gyfreithiol o ran prynu a gwerthu eiddo yn yr Alban yn wahanol i'r hyn ydyw yng Nghymru a Lloegr. Cydnabyddir, pan fydd angen prynu eiddo yn yr Alban, y gall fod angen i'r cyflogai dalu costau prisio sawl gwaith cyn y bydd pryniant yn derfynol. Bydd y BBC yn cytuno i dalu cost prisiadau angenrheidiol.

Pan fydd y BBC eisoes wedi talu am dri phrasiad, rhaid i'r cyflogai fod yn barod i drafod â'r darparwr gwasanaeth adleoli y rhesymau am y bidiau aflwyddiannus. Os bernir bod y cyflogai wedi ymddwyn heb ofal digonol yn y mater hwn, gall y BBC wrthod talu unrhyw gostau pellach.

CEFNOGAETH YMLYNIAD O FEWN Y DU

Disgrifiad Dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd cefnogaeth Teithio a Llety ar gael i gyflogeion sy'n cael cynnig Ymlyniad o fewn y DU. Rhaid i ymlyniad fod yn hwy na thri mis o ran hyd ond heb fod yn hwy na 12 mis.

Cymhwys Yr unig adeg pan fydd y BBC yn awdurdodi cymorth yw os oes gennych eisoes ymrwymiad ariannol ar gyfer llety yn eich canolfan waith barhaol, ac y bydd yr ymrwymiad hwnnw'n parhau tra byddwch ar ymlyniad, neu eich bod yn wynebu costau ychwanegol er mwyn cymudo i'ch canolfan dros dro. Ni allwch hawlio costau llety dros dro:

- os yw eich canolfan dros dro o fewn pellter neu amser cymudo i'ch cartref. Fodd bynnag, mae'n bosibl y gallwch hawlio costau teithio ychwanegol trwy gyfrwng y Polisi Costau Teithio Ychwanegol.
- os oes trefniadau arbennig yn cael eu gwneud i gwmpasu cost eich llety.
- os ydych yn gosod eich prif breswylfa tra eich bod ar ymlyniad.
- os nad ydych yn cadw eich llety yn eich canolfan barhaol.

Ymgeisio	I ymgeisio am dreuliau/cefnogaeth ymlyniad bydd angen ichi lenwi Ffurflen Awdurdodi Cefnogaeth Ymlyniad y BBC sydd ar gael ar y Porth AD.
Cymeradwyo	Mae'r holl geisiadau yn amodol ar derfynau y cytunir arnynt yn lleol â'ch Rheolwr Tîm newydd a'r sawl a awdurdodwyd i fod yn gyfrifol am y gyllideb.
Hawliau	Os nad ydych yn gallu byw gartref a theithio'n ddyddiol i'r lleoliad newydd bydd gennych yr hawl i hawlio'r pethau canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • Llety – cytunir ar lwfans rent hyd at derfyn penodol. • Ffioedd gweinyddu, ffioedd tystlythyrau a ffioedd gwirio credyd yr asiant gosod tai. • Cefnogaeth i dalu blaendal ar yr eiddo rhent, a roddir trwy gyfrwng benthyciad ichi. • Costau dyblyg ar gyfer nwy, trydan, biliau dŵr a'r dreth gyngor tra byddwch mewn llety dros dro. Dylech wneud cais am ddisgownt ar y dreth gyngor a chyfleustodau hanfodol os yw hyn yn berthnasol (os ydych yn sengl ac nad oes gennych bartner yn byw yn eich cartref blaenorol, dim ond i gostau sefydlog y bydd hyn yn berthnasol). • Costau teithio yn ôl a blaen i gartref presennol y teulu tra byddwch mewn llety dros dro, yn unol â'r patrwm gwaith y cytunwyd arno gyda'ch Rheolwr Tîm.
Treth	Cyhyd ag nad oes disgwyl i'r ymlyniad fod yn hwy na 2 flynedd, gall y BBC eich ad-dalu am y costau sy'n gysylltiedig â chostau byw neu gostau teithio ychwanegol dros dro heb dynnu treth. Cyn gynted ag y gwelir y bydd yr ymlyniad yn hwy na 24 mis, daw'r holl gostau hyn yn drethadwy.

GWYBODAETH YCHWANEGOL

Darparwr Adleoli

Mae'r BBC wedi cyflogi darparwr gwasanaeth adleoli arbenigol i'ch cefnogi â'ch holl anghenion adleoli. Mae manylion y darparwr presennol ar gael ar y Porth.

Bydd y Ganolfan Wasanaeth AD yn anfon unrhyw ffurflenni adleoli a gymeradwywyd ymlaen at y darparwr gwasanaeth adleoli, a fydd yna'n pennu ymgynghorydd adleoli, a bydd ef/hi yn cysylltu â chi i gadarnhau'r manylion a amlinellwyd ar eich ffurflen ac i esbonio unrhyw hawliau neu'r broses. Mae'r darparwr gwasanaeth adleoli yn gyfrifol am weinyddu'r polisi adleoli ar ran y BBC a rheoli'r broses adleoli a hawlio treuliau. Rhaid cyflwyno'r holl hawliadau i'r darparwr gwasanaeth adleoli yn unol â'r drefn dreuliau, y byddant yn ei hamlinellu wrthyhych pan fyddant yn cysylltu â chi.

Treth

Er mwyn bod yn gymwys am y rhyddhad treth sydd ar gael ar wariant adleoli, rhaid i'r pethau canlynol fod yn berthnasol:

- Rhaid i'r newid lleoliad gwaith olygu nad yw'r man gwaith newydd o fewn pellter cymudo dyddiol rhesymol i'ch cartref.
- Rhaid ichi newid eich unig neu brif breswylfa fel ei bod o fewn pellter cymudo dyddiol rhesymol i'r lleoliad gwaith newydd.
- Rhaid bod pellter sylweddol rhwng yr hen gartref a'r cartref newydd.
- Rhaid i'r costau adleoli gael eu talu a'u hawlio'n ôl erbyn diwedd y flwyddyn dreth wedi i'r rôl symud. Er enghraifft:
 - Os caiff y rôl ei throsglwyddo ym mis Ionawr 2016, rhaid ichi gwblhau eich adleoliad erbyn 5 Ebrill 2017
 - Os caiff y rôl ei throsglwyddo ym mis Mai 2016, rhaid ichi gwblhau eich adleoliad erbyn 5 Ebrill 2018.

Atebolrwydd Treth

Bydd treuliau adleoli yn drethadwy pan fyddant, ynghyd, yn uwch na'r trothwy treth neu os bernir nad ydynt yn gymwys.

Er mwyn annog a lleddfu baich adleoli bydd y BBC yn talu cost unrhyw atebolrwydd treth sy'n codi yn sgil ad-dalu treuliau craidd a gymeradwywyd fel yr amlinellir yn y polisi.

Ymlyniadau Rhyngwladol

Noder nad yw ymlyniadau i Jersey, Guernsey, Ynys Manaw na Gweriniaeth Iwerddon yn ymlyniadau o fewn y DU, a rhaid ystyried y ddeddfwriaeth dreth a nawdd cymdeithasol leol yn achos y rhai sy'n mynd i, neu'n dod o, unrhyw un o'r lleoliadau hyn. Os cewch ymlyniad o'r fath, cysylltwch â'r Tîm Ymlyniadau Rhyngwladol yn y lle cyntaf fel y gellir ystyried yr holl ofynion treth.

Newid mewn Amgylchiadau

Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi gwybod i'ch Rheolwr Tîm a'r Ganolfan Wasanaeth AD am unrhyw newid yn eich amgylchiadau a allai effeithio ar eich hawliau.

Lwfans Rhagchwilio Lleoliad

Yn rhan o'r gefnogaeth adleoli i gyflogeion, mae lwfans 'Rhagchwilio' ar gael a gallwch ei hawlio ar sail derbynebaw. Gellir ei ddefnyddio ar gyfer treuliau teithio, llety a phrydau ar gyfer ymweliad Rhagchwilio â'r lleoliad gwaith newydd arfaethedig. Ceir uchafswm y gallwch ei hawlio, a bydd y darparwr gwasanaeth adleoli yn esbonio hyn wrthyh.

Gadael y BBC

Wrth wneud cais am gefnogaeth adleoli bydd gofyn ichi gytuno y gall y BBC hawlio elfen o'r costau adleoli yn ôl os byddwch yn gadael eich rôl yn y prif leoliad newydd yn wirfoddol neu'n cael eich diswyddo ohoni o fewn 36 mis. Gofynnir ichi lofnodi datganiad i'r perwyl hwn. Y dyddiad adleoli yw'r dyddiad pan fyddwch yn cychwyn eich swydd newydd a dyma'r telerau ad-dalu:

- Blwyddyn 1: 100% o'r costau adleoli a dalwyd.
- Blynnyddoedd 2 a 3: y costau adleoli a dalwyd ar raddfa leihaol. Bydd y swm y bydd gofyn ei ad-dalu yn lleihau 1/24 fesul mis am bob mis llawn neu ran o fis y byddwch yn parhau i fod yn gyflogedig gan y BBC yn ystod blynnyddoedd 2 a 3 (e.e. bydd gofyn i gyflogeion sy'n gadael 18 mis wedi dyddiad eu hadleoliad ad-dalu 18/24 o'r costau a bydd gofyn i staff sy'n gadael wedi 30 mis ad-dalu 6/24 o'r costau).

Ymlyniadau Rhyngwladol

Noder nad yw ymlyniadau i Jersey, Guernsey, Ynys Manaw na Gweriniaeth Iwerddon yn ymlyniadau o fewn y DU, a rhaid ystyried y ddeddfwriaeth dreth a nawdd cymdeithasol leol yn achos y rhai sy'n mynd i, neu'n dod o, unrhyw un o'r lleoliadau hyn. Os cewch ymlyniad o'r fath, cysylltwch â'r Tîm Ymlyniadau Rhyngwladol yn y lle cyntaf fel y gellir ystyried yr holl ofynion treth.

Amodau Cyffredinol

Bydd Rheolwr Tîm yn rhoi gwybod i gyflogai am ei adleoliad a'r dyddiad pan fydd yn digwydd. Bydd hefyd yn cytuno ar y pecyn craidd sydd ar gael. Dylid trafod unrhyw faterion personol neu anawsterau ynghylch adleoliad unigolyn â'r Rheolwr Tîm a'ch ymgynghorydd adleoli cyn gynted ag y byddant yn codi. Nid yw'r BBC yn cynnig benthyciadau pontio dan unrhyw amgylchiadau. Nid yw'r BBC yn cynnig cefnogaeth i brynu ail gartrefi.